Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Mai 9, 2017 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), Elfed ap Gomer, Janet Edwards a John Hughes. Hefyd Peredur Jenkins a Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau:

Nid oedd ymddiheuriadau.

2. Dewis Swyddogion

Swyddogion presennol:

Cadeirydd: Geraint Rowlands
Is Gadeirydd: Gethin Williams.

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Canolfan y Pentref Llanelltyd (1): Llinos Williams
Neuadd Bentref Bontddu (1): Janet Edwards
Llywodraethwyr Ysgol Llanelltyd (1): Carwyn Evans.
Llywodraethwyr Ysgol Bontddu (1): Gwenan Owen.
Materion Mynwent Llanelltyd (2): Geraint Rowlands a John Hughes.
Un Llais Cymru (2): Elfed ap Gomer, Gareth Ellis
Swyddog Ariannol Cyfrifol (i arolygu gweithrediadau ariannol): Elfed ap Gomer

Penderfynwyd codi'r mater yn cyfarfod neasaf.

Mae'r Clerc yn dymuno ymddiswyddo o'i swydd ar Gorffennaf 11, 2017.

Penderfynwyd gwneud ymoliadau gyda Clerc Cyngor Cymuned Ganllwyd i weld os mae ganddo ddiddordeb bod yn Clerc y Cyngor. Hefyd, rhoi hysbysiad yn y Cambrian News ac ar Facebook.

3. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ebrill 11, 2017

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Ebrill 11, 2017

Eitem 5.g. Anfonwyd copi o Gyfrifon y Cyngor 2016/17 i'r aelodau oedd yn absennol o'r cyfarfod.

6. Materion Ariannol

a. Bil (Ebrill 2017) am £241.99 oddi wrth Janet Edwards. Mae yn cynnwys glanhau a gofalu am Toiledau Bontddu am y cyfnod Ionawr i Mawrth 2017 (£225.00) ac am bapur toiled (£16.99).

Penderfynwyd talu'r bil.

b. Llythyr (13/4/2017) oddi wrth Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau yn diolch am ein rhodd o £200.

c. Dogfennau (12/4/2017) polisi yswiriant y Cyngor oddi wrth AON am y cyfnod Mehefin 01, 2017 i Mehefin 01, 2018. Y tâl i'w adnewyddu yw £1,044.79 (Tal llynedd oedd £1,021.47).

Penderfynwyd peidio adnewyddu y polisi.

ch. Llythyr (24/4/2017) a dogfennau polisi yswiriant oddi wrth Zurich gyda phris i yswirio'r Cyngor am y cyfnod Mehefin 01, 2017 i Mai 31, 2018. Y pris yw £633.76 am un flwyddyn neu £613.78 am dair blynedd (Long Term Agreement).

Penderfynwyd yswrio gyda Zurich. Hefyd, gwneud ymoliadau gyda'r cwmni i gael gwybod os mae y pris £613.78 yn cadw yr un fath am y tair blynedd.

d. Costau'r Clerc am Ebrill 1, 2016 - Mawrth 31, 2017:

Swm am: stampiau + papur + amlenni: £74.73.

Penderfynwyd talu'r bil.

dd. Lythyr (4/5/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn egluro sefyllfa Swyddog Ariannol Cyfrifol. Maent yn rhoi gwybod y Clerc yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ac fe arwyddodd Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i 31 Mawrth 2017.

7. Mynwent Llanelltyd

a. Llythyr (12/4/2017) oddi wrth I.B. Williams a'i Fab Cyf. gyda peg i'w osod yn y fynwent i ddangos lleoliad bedd Martha Roberts a Althea Valerie Roberts. Amgáu mae siec am £100 at gosod gofeb ar y bedd.

Mae'r gwaith gosod y beddfaen wedi gael ei wneud.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Sydd angen newid y drefn i gael barn yr aelodau ar geisiadau cynllunio?

Penderfynwyd codi'r mater yn cyfarfod neasaf.

b. Llythyr (2/5/2017) yn rhoi gwybod mae gwahoddiad gan y Parc i gyfarfod blynyddol rhwng y Parc a chynghorau Cymuned a Thref. Bydd y cyfarfod yn Coed y Brenin ar ddydd Mawrth, Mehefin 13 am 6.30y.h. Maent eisiau gwybod cyn May 31 pwy fydd yn y cyfarfod.

9. Gohebiaeth

a. Llythyr (11/4/2017) oddi wrth Llinos Williams yn rhoi ei henw ymlaen i barhau fod yn aelod o'r Cyngor.

b. Llythyr (10/4/2017) oddi wrth Swyddog Canlyniadau, Cyngor Gwynedd ynglŷn ag etholiad cynghorau cymuned – 4 Mai 2017. Mae yn cynwys y personau sydd wedi cael eu hethol yn ddiwrthwynebiad. Amgáu mae ffurflen i'w gwblhau gan y personau.

Y personau sydd wedi cael eu hethol: Elfed ap Gomer, Janet Edwards, John Carwyn Evans, John Albert Hughes, Geraint Prys Rowlands, Gethin Glyn Williams. Mae 3 sedd wag.

Cynghorydd dros rhanbarth Brithdir/ Llanfachreth/Ganllwyd/Lanelltyd: Peredur Jenkins.

Bydd angen cyfethol unigolion i lenwi seddi gweigion gyda rhybudd cyhoeddus yn datgan ein bwriad i gyfethol.

Nid yw Gareth Ellis a Llinos Williams wedi cael eu hethol ac felly ni fyddant ar y Cyngor. Maent wedi cael gwybod am hyn a bydd angen iddynt gael eu cyfethol i fod ar y Cyngor.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Swyddog Cofrestru i ddechrau'r broses i ethol 3 gynghowr i lennwi y seddi gweigion.

c. Llythyr (13/4/2017 a 5/5/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gwrs Hyfforddiant Gynefino i Gynghorwyr Newydd. Mae'r hyfforddiant yn Canolfan Hen Blas, Bala ar ddydd Mercher, 31/5/2017 am 6.30yh.

d. Llythyr (12/4/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd. Maent yn cynnig cyfle i'r Cyngor wynebu un aelod fel 'Aelod Cymunedol' ar Bwyllgor Safonau Gwynedd. Bydd y Pwyllgor yn cwrdd tua 4 gwaith y flwyddyn. Bydd lwfans a chostau teithio ar gael.

dd. Llythyr (13/4/2017) oddi wrth Mrs S.M. Briggs. Ar ran Neuadd Bentref Bontddu, mae hi'n holi os mae lleoliad newydd i'r hysbysfwrdd. Mae hi'n gofyn am yr hawl i roi wyneb newydd i'r hysbysfwrdd sydd gyda bord galed. Mae saer profiadol yn barod i wneud y gwaith.

Penderfynwyd i Janet Edwards gofyn Mrs Biggs beth fydd y gost i roi gwyneb newydd ar yr hysbysfwrdd, ac oes cynnig i leoli yr hysbysfwrdd wrth y Neuadd.

e. Llythyr (18/4/2017) oddi wrth Un Llais Cymru gyda Templed Polisi Cyfryngau Cymdeithasol i'r Cyngor.

f. Llythyr (18/4/2017) oddi wrth Un Llais Cymru gyda chopi o ffurflen 'Cofrestr Diddordebau Aelodau' bydd angen eu llenwi. Bydd BDO angen y wybodaeth.

Gethin Williams a Geraint Rowlands sydd wedi datgan diddordeb yn 2016/2017.

ff. Llythyr (21/4/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynwys llythyr oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'n rhoi gwybodaeth ar archwiliad 2015-16 ynglŷn â threfniadau rheoli ariannol cynghorau cymuned.

g. Llythyr (Mai 2017) oddi wrth Un Llais Cymru. Maent angen gwybod enw'r cynghorydd bydd yn cynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Ardal. Mae le i ddau ond dim ond un bleidlais sydd gan bob Cyngor.

Penderfynwyd codi'r mater yn cyfarfod neasaf.

10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

Nid oedd adroddiad.

11. Materion Brys

Nid oedd materion brys.